**LC581**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002**

Mae’r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diwygio Lesddaliad (Hysbysiadau) 1997 i ddarparu mathau newydd o hysbysiadau i’w defnyddio gan denantiaid sy’n gwneud cais am freinio ac estyn lesddaliadau hir o dan Ddeddf Diwygio Lesddaliad 1967. Mae angen ffurflenni newydd o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed i Ddeddf 1967 gan Ddeddf Diwygio Deiliadaeth ar y Cyd a Lesddaliad 2002.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan ei fod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar, eglurwyd bellach un pwynt y cododd yr ymgynghorydd cyfreithiol amheuaeth yn ei gylch i’r Pwyllgor. Yn unol â hynny, nid oes unrhyw bwyntiau i’w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

10 Rhagfyr 2002